Cyllid & Tollau EM

# Yr hyn sy'n digwydd os ydym wedi talu gormod o gredydau treth i chi

Cod Ymarfer

COP26

# Cynnwys


**Rhagarweiniad** 1

- Ailystyriaeth orfodol 1
- Pryd y dylech ddadlau yn erbyn gordaliad 2
- Sut rydym yn cyfrifo'ch credydau treth 2
- Sut y mae gordaliad yn digwydd 3
- Newidiadau yn eich amgylchiadau neu'ch incwm 3
- Os ydych yn dechrau byw gyda phartner, os ydych chi a'ch partner yn gwahanu eu os yw'ch partner yn marw 4
- Hawliadau newydd am gredydau treth 4

**Ein cyfrifoldebau ni a'ch rhai chi** 4

- Ein cyfrifoldebau 4
- Eich cyfrifoldebau 5
- Os methwn fodloni ein cyfrifoldebau 6
- Os methwch â bodloni'ch cyfrifoldebau 7
- Os bydd y ddau ohonom yn methu â bodloni ein cyfrifoldebau 7
- Os bydd y ddau ohonom yn bodloni ein cyfrifoldebau 7
- Os bydd yn cymryd cryn amser i chi roi gwybod i ni nad ydym wedi bodloni ein cyfrifoldebau 7
- Amgylchiadau eithriadol 7
- Penodedigion 8


Mae gennym ystod o wasanaethau ar gyfer pobl ag anabledd. Mae'r rhain yn cynnwys arweiniad mewn Braille, ar sain ac mewn print bras. Mae'r rhan fwyaf o'n ffurflenni hefyd ar gael mewn print bras. Cysylltwch â'n llinell cymorth am ragor o wybodaeth.


**Herio adennill gordaliad** 8

- Sut i ddadlau yn erbyn gordaliad 8
- Dyled hanesyddol 10
- Os byddwn yn cael penderfyniad yn anghywir 11
- Sut rydym yn penderfynu a ddylech ad-dalu gordaliad cyfan, neu ran ohono 11
- Os ydych yn dal i gredu na ddylech ad-dalu gordaliad 12

**Ad-dalu gordaliad** 13

- O ddyfarniad credydau treth sy'n dal i gael ei dalu 13
- Trwy daliad uniongyrchol 14
- O ddyfarniad credydau treth sy'n dal i gael ei dalu a thrwy daliad uniongyrcholt 14
- Gofyn am fwy o amser i ad-dalu taliad uniongyrchol 14
- Trwy addasiad i'ch cod treth 15
- Os ydych yn hawlio Credyd Cynhwyso 15
- Os nad ydych yn hawlio credydau treth mwyach ac mae gennych ddyled heb ei thalu 15
- Caledi arianno 15
- Os na allwch dalu am eich treuliau byw hanfodo 15
- Os byddwch chi a'ch partner yn gwahanu 16

**Cysylltu â n** 17

**Help a chymorth** 17

- Cael help gan CThEF os oes angen cymorth ychwanegol arnoch 17
- Cyngor ar ddyledion yn rhad ac am ddim 17

**Gwasanaeth i gwsmeriaid** 17

- Eich hawliau a'ch rhwymedigaethau 17

Mae'r daflen hon yn esbonio pam mae gordaliadau'n digwydd, a sut i'w had-dalu. Mae hefyd yn rhoi gwybod i chi pan nad oes yn rhaid i chi eu had-dalu, a sut i ddadlau yn erbyn gordaliad.

## Rhagarweiniad

Mae gordaliad yn golygu ein bod wedi talu mwy o arian i chi nad oedd gennych hawl iddo.

### Ailystyriaeth orfodol

Os ydych o'r farn bod swm y credydau treth yn anghywir, gallwch ofyn i ni fwrw golwg arall dros y penderfyniad. Gelwir hyn yn ailystyriaeth orfodol, a dylech gysylltu â ni cyn pen 30 diwrnod i'r dyddiad a ddangosir ar eich hysbysiad o benderfyniad. Os oes gennych reswm da, mae'n bosibl y byddwn yn rhoi mwy o amser i chi. Ni allwn dderbyn cais 13 mis neu'n hwyrach ar ôl dyddiad ein penderfyniad. Gallwch hefyd ofyn i ni edrych ar unrhyw gosb yr ydym wedi'i gosod mewn cysylltiad â'ch hawliad credydau treth neu'r llog y gwnaethom benderfynu ei godi ar eich gordaliad.

Pan fyddwn wedi bwrw golwg dros y penderfyniad eto, byddwn yn anfon Hysbysiad o Ailystyriaeth Orfodol atoch yn egluro'r hyn yr ydym wedi'i wneud. Bydd hwn yn cynnwys yr holl wybodaeth fydd ei hangen arnoch i apelio i'r Tribiwnlys yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, neu'r Appeals Service yng Ngogledd Iwerddon, os ydych yn dal i fod yn anfodlon ar ein penderfyniad. Yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban, gallwch apelio yn uniongyrchol at y Tribiwnlys heb ofyn am ailystyriaeth orfodol yn gyntaf. Mae'n bosibl y byddwch hefyd yn gallu apelio'n uniongyrchol yng Ngogledd Iwerddon. Mae'n rhaid i chi apelio ar bapur i'r Tribiwnlys neu'r Gwasanaeth Apeliadau a chyn pen mis (30 diwrnod yng Ngogledd Iwerddon) o ddyddiad eich hysbysiad penderfynu, neu eich Hysbysiad o Ailystyriaeth Gorfodol os ydych wedi gofyn i ni ailedrych ar ein penderfyniad.l.

Byddwn yn gohirio unrhyw gamau adennill wrth i'r sefyllfa gael ei hailystyried, neu wrth i'ch apêl gael ei hystyried. Am ragor o wybodaeth, gweler ein taflen wybodaeth WTC/AP, 'Beth i'w wneud os credwch fod eich Credyd Treth Plant neu'ch Credyd Treth Gwaith yn anghywir'.

Ewch i www.gov.uk/cymraeg a chwilio am WTC/AP

Os ydych yn gwneud hawliad am Gredyd Cynhwysol a bod eich ailystyriaeth orfodol neu'ch apêl yn llwyddiannus, byddwn ond yn gallu talu credydau treth i chi hyd at y diwrnod cyn i chi wneud eich hawliad am Gredyd Cynhwysol. Mae hyn oherwydd bod Credyd Cynhwysol yn disodli credydau treth ac os ydych yn gwneud hawliad i Gredyd Cynhwysol, mae'n rhaid i gredydau treth ddod i ben, hyd yn oed os nad oes gennych hawl i Gredyd Cynhwysol.

I gael gwybodaeth, ewch i www.gov.uk/how-tax-credits-affect-other-benefits

## Pryd y dylech ddadlau yn erbyn gordaliad

Os ydych o'r farn bod ein penderfyniad yn gywir, ond nid ydych yn cytuno y dylech ad-dalu'r gordaliad, darllenwch dudalennau 4 i 12 o'r daflen hon. Bydd yr wybodaeth yn eich helpu i benderfynu a ddylid dadlau yn erbyn eich penderfyniad i adennill y gordaliad.

Cysylltwch â ni (darllenwch dudalen 17) os yw'r canlynol yn wir:
- nid ydych yn cytuno eich bod wedi'ch gordalu
- rydych yn ansicr a ddylech ddadlau yn erbyn y penderfyniad i adennill gordaliad
- rydych yn ansicr a ddylech ofyn am ailystyriaeth orfodol yn groes i'r penderfyniad a achosodd y gordaliad

## Sut rydym yn cyfrifo'ch credydau treth

Mae credydau treth yn dibynnu ar eich incwm a'ch amgylchiadau teuluol. Pan fydd eich incwm neu'ch amgylchiadau teuluol yn newid, gall eich hawl neu'r swm a dalwn i chi newid.

Rydym yn talu credydau treth i chi ar gyfer blwyddyn dreth – o 6 Ebrill mewn un flwyddyn i 5 Ebrill yn y nesaf. Pan fyddwn yn cyfrifo'r hyn i'w dalu i chi am y tro cyntaf, byddwn yn ystyried amgylchiadau presennol eich teulu a'ch incwm am y flwyddyn dreth ddiwethaf. Os ydych yn credu y bydd eich incwm ar gyfer y flwyddyn dreth bresennol yn wahanol i'r hyn yr oedd y flwyddyn ddiwethaf, gallwch roi amcangyfrif o'r hyn y bydd. Os defnyddiwn y ffigur amcangyfrifedig hwn, mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod i ni ar unwaith os ydych yn credu y bydd eich incwm yn uwch neu'n is na'r amcangyfrif a roesoch. Os na wnewch hynny, efallai na fyddwn yn talu digon o gredydau treth i chi, neu efallai y cewch eich gordalu.

Ar ôl 5 Ebrill bob blwyddyn, byddwn yn anfon pecyn adnewyddu atoch yn gofyn i chi wneud y canlynol:
- gwirio bod yr wybodaeth sydd gennym amdanoch yn gyfredol
- rhoi gwybod i ni faint o incwm a gawsoch yn ystod y flwyddyn dreth ddiwethaf

Dylech lenwi a dychwelyd eich ffurflen adnewyddu ar unwaith. Byddwn wedyn yn cyfrifo'r swm sy'n ddyledus i chi mewn gwirionedd am y flwyddyn sydd newydd ddod i ben, a hefyd y swm am y flwyddyn a ddechreuodd ar 6 Ebrill.

Os ydych yn hawlio Credyd Cynhwysol, byddwn yn dod â'ch credydau treth i ben yn ystod y flwyddyn yn hytrach nag aros tan ddiwedd y flwyddyn. Byddwn yn ysgrifennu atoch er mwyn rhoi gwybod am yr hyn y mae angen i chi ei wneud.

## Sut y mae gordaliad yn digwydd

Gall gordaliad ddigwydd:

- os nad ydych yn rhoi'r wybodaeth gywir i ni, naill ai pan rydych yn hawlio neu pan fyddwch yn adnewyddu'ch hawliad ar ddiwedd y flwyddyn
- os byddwch yn hwyr yn rhoi gwybod i ni am newid yn eich amgylchiadau
- os yw'ch incwm yn 2023 i 2024 yn fwy na £2,500 yn uwch nag yr oedd yn 2022 i 2023
- os rhowch amcangyfrif o'ch incwm am y flwyddyn bresennol sy'n digwydd bod yn rhy isel
- os rhowch wybodaeth anghywir i ni pan rowch wybod i ni am newid yn eich amgylchiadau neu'ch incwm
- os gwnawn gamgymeriad wrth gofnodi'r wybodaeth a rowch i ni
- os na weithredwn ar wybodaeth a rowch i ni

## Newidiadau yn eich amgylchiadau neu'ch incwm

Dylech roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am unrhyw newidiadau yn eich incwm a'ch amgylchiadau teuluol. Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni am rai newidiadau cyn pen un mis i'r adeg y gwnaethant ddigwydd.

Weithiau, efallai na fydd yn hollol glir pan fu newid, felly mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni cyn pen un mis i'r dyddiad y gwnaethoch sylweddoli bod newid wedi digwydd.

Defnyddiwch y rhestr wirio TC602(SN), 'Gwirio eich hysbysiad o ddyfarniad credydau treth' er mwyn gweld pa newidiadau y mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni amdanynt. Anfonon ni hyn gyda'ch hysbysiad o ddyfarniad. Os oes angen i chi roi gwybod i ni am newid, efallai y byddai o ddefnydd i chi gadw cofnod o'r dyddiad y gwnaethoch gysylltu â ni, enw'r person y gwnaethoch siarad ag ef a manylion y newid.

Ar ôl i chi roi gwybod i ni am newid, byddwn yn cyfrifo'r swm newydd sy'n ddyledus i chi ac yn anfon hysbysiad o ddyfarniad newydd atoch.

Os bydd newid mewn amgylchiadau'n golygu eich bod eisoes wedi cael mwy na'r hyn yr ydym yn amcangyfrif ar gyfer eich dyfarniad am y flwyddyn gyfan, bydd eich taliadau credydau treth fel arfer yn dod i ben. Os bydd hyn yn eich gadael heb ddigon o arian i fyw arno, rhowch wybod i ni ac mae'n bosibl y byddwn yn ystyried gwneud taliadau pellach.

Os bydd newid mewn amgylchiadau'n golygu nad ydych wedi cael mwy na'r hyn a amcangyfrifwyd gennym ar gyfer eich dyfarniad am y flwyddyn gyfan, bydd eich taliadau credydau treth yn parhau ar gyfradd is (gweler tudalen 15, 'Caledi ariannol').

### Os ydych yn dechrau byw gyda phartner, os ydych chi a'ch partner yn gwahanu neu os yw'ch partner yn marw

Rhaid i chi roi gwybod i ni cyn pen un mis:

- os ydych yn priodi neu'n mynd i mewn i bartneriaeth sifil neu'n dechrau byw gyda rhywun fel pe baech yn briod neu'n rhan o bartneriaeth sifil
- os ydych yn briod neu mewn partneriaeth sifil a'ch bod yn gwahanu yn gyfreithiol neu mewn amgylchiadau sy'n debygol o fod yn barhaol
- os ydych yn peidio â byw gyda rhywun fel pe baech yn briod neu'n mewn partneriaeth sifil
- os yw'ch partner yn marw

Bydd eich hawliad yn dod i ben yn gyfreithiol o dan yr amgylchiadau hyn.

Po hiraf y gohiriwch roi gwybod i ni am y math hwn o newid, y mwyaf y gallai unrhyw ordaliad fod.

### Hawliadau newydd am gredydau treth

Mae credydau treth wedi cael eu disodli gan Gredyd Cynhwysol. Gallwch ond gwneud hawliad am Gredyd Treth Plant neu Gredyd Treth Gwaith os ydych eisoes yn cael credydau treth. Efallai y gallwch hawlio Credyd Cynhwysol (neu Gredyd Pensiwn os ydych chi a'ch partner wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth), Lwfans Ceisio Gwaith neu Lwfans Cymorth Cyflogaeth.

I gael rhagor o wybodaeth am hawlio:

- Credyd Cynhwysol, ewch i www.gov.uk/credyd-cynhwysol
- Credyd Pensiwn, ewch i www.gov.uk/credyd-pensiwn
- Lwfans Ceisio Gwaith, ewch i www.gov.uk/lwfans-ceisio-gwaith
- Lwfans Cymorth Cyflogaeth, ewch i http://www.gov.uk/lwfans-cyflogaeth-a-chymorth

## Ein cyfrifoldebau ni a'ch rhai chi

I'n cynorthwyo i gael eich dyfarniad yn gywir ac i osgoi cronni gordaliad, mae'n bwysig ein bod yn bodloni ein cyfrifoldebau a'ch bod chithau'n bodloni eich rhai chi.

### Ein cyfrifoldebau

Dylem wneud y canlynol:

- rhoi cyngor cywir i chi, yn seiliedig ar yr wybodaeth a rowch i ni pan fyddwch yn cysylltu â ni am wybodaeth
- cofnodi'n fanwl gywir yr wybodaeth a rowch i ni pan fyddwch yn gwneud eich hawliad neu'n ei adnewyddu, a'i defnyddio i gyfrifo'ch credydau treth a thalu'r swm cywir i chi
- cynnwys gwybodaeth a roesoch i ni am eich teulu a'ch incwm pan fyddwn yn anfon hysbysiad o ddyfarniad atoch. Os rhowch wybod i ni fod camgymeriad ar eich hysbysiad o ddyfarniad, neu fod rhywbeth wedi'i hepgor ohono, dylem ei unioni ac anfon hysbysiad o ddyfarniad wedi'i gywiro atoch

- cofnodi'n fanwl gywir yr hyn yr ydych wedi rhoi gwybod i ni amdano ac anfon hysbysiad o ddyfarniad newydd atoch cyn pen 30 diwrnod, pan fyddwch yn rhoi gwybod i ni am newid mewn amgylchiadau. Nid yw'r 30 diwrnod yn dechrau tan i ni gael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnom oddi wrthych er mwyn gwneud y newid. Mae'n bwysig, felly, eich bod yn rhoi'r holl wybodaeth i ni am newid

## Eich cyfrifoldebau

Dylech wneud y canlynol:

- rhoi gwybodaeth gywir, gyflawn a chyfredol i ni
- rhoi gwybod i ni cyn gynted â phosibl am unrhyw newidiadau i'ch incwm a'ch amgylchiadau, felly mae gennym wybodaeth gywir a chyfredol i leihau'r siawns y bydd gordaliad yn digwydd
- rhoi gwybod i ni cyn gynted â phosibl os na chewch hysbysiad o ddyfarniad cyn pen 30 diwrnod o ddweud wrthym ynghylch newid mewn amgylchiadau
- gwirio'ch hysbysiad o ddyfarniad gan ddefnyddio'r rhestr wirio TC602(SN) a anfonwyd gennym gydag ef, a rhowch wybod i ni yn syth os oes unrhyw beth o'i le, ar goll neu'n anghyflawn

Mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni am rai newidiadau cyn pen un mis ar ôl iddynt ddigwydd – mae'r rhain wedi'u rhestru ar gefn y rhestr wirio.

Disgwyliwn i chi wirio'r prif fanylion canlynol:

- os yw'n ddyfarniad ar y cyd (ar eich cyfer chi a'ch partner) neu'n ddyfarniad sengl (yn seiliedig ar eich amgylchiadau unigol)
- yr oriau a weithiwch
- os ydych yn cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n seiliedig ar incwm neu Gredydau Pensiwn
- bod elfen anabledd wedi'i dangos os oes gennych chi, neu unrhyw un ar yr aelwyd, hawl iddi
- nifer y plant ar eich aelwyd, a'u hoedrannau
- unrhyw gostau gofal plant
- cyfanswm incwm eich aelwyd am y cyfnod a ddangosir ar yr hysbysiad o ddyfarniad

Byddwn yn anfon hysbysiad o ddyfarniad wedi'i gywiro atoch os rhowch wybod i ni fod rhywbeth o'i le, ar goll neu'n anghyflawn.

Gwirio bod eich taliadau'n cyd-fynd â'r rhai a ddangosir ar eich hysbysiad o ddyfarniad ac i ddweud wrthym os nad ydynt.

Mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni ar unwaith os oes rhywbeth o'i le, ar goll neu'n anghyflawn. Dylech nodi pryd y cawsoch eich hysbysiad o ddyfarniad a phryd y gwnaethoch roi gwybod i ni am y camgymeriad. Efallai y gofynnwn i chi am yr wybodaeth hon er mwyn dangos eich bod wedi gweithredu cyn pen 30 diwrnod.

Os yw'ch amgylchiadau personol yn anodd ac yn golygu na allwch wirio'ch hysbysiad o ddyfarniad neu daliadau banc, er enghraifft bu aelod o'ch teulu yn ddifrifol sâl, rhowch wybod i ni os oes rhywbeth o'i le, ar goll neu'n anghyflawn cyn gynted â phosibl.

Hefyd, rhowch y rheswm yr ydych yn hwyr yn rhoi gwybod i ni am hyn.

Os nad ydych yn deall eich hysbysiad o ddyfarniad, ffoniwch Wasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF (gweler tudalen 17).

## Os methwn â bodloni ein cyfrifoldebau

Os methwn â bodloni ein cyfrifoldebau, ond rydych yn bodloni'ch rhai chi i gyd, ni fyddwn yn gofyn i chi ad-dalu'r gordaliad cyfan a achoswyd gan ein methiant.

Mae'n rhaid i chi dal rhoi gwybod i ni am unrhyw gamgymeriad ar eich hysbysiad o ddyfarniad cyn pen 30 diwrnod o'r dyddiad arno. Os gwnewch hynny, ni fyddwch yn gyfrifol am ordaliad a achoswyd gan ein camgymeriad. Os rhowch wybod i ni am gamgymeriad mwy na 30 diwrnod ar ôl y dyddiad ar eich hysbysiad o ddyfarniad, gallwn ofyn i chi ad-dalu gordaliad hyd at y dyddiad y gwnaethoch gysylltu â ni.

**Enghraifft 1**
Ar 1 Medi rydych yn rhoi gwybod i ni am newid yn eich amgylchiadau ond nid ydym yn newid eich dyfarniad tan 16 Hydref. Ni fyddwn yn casglu unrhyw ordaliad sy'n codi ar ôl 30 Medi.

**Enghraifft 2**
Ar 12 Awst, rydych yn rhoi gwybod i ni am newid yn eich incwm. Rydym yn anfon hysbysiad o ddyfarniad newydd atoch sy'n eich cyrraedd ar 19 Awst, ond nid ydym wedi cofnodi'n gywir y manylion a roesoch i ni. Os sylwch ar y camgymeriad a rhoi gwybod i ni amdano erbyn 18 Medi (30 diwrnod o 19 Awst), byddwn yn cywiro'ch dyfarniad ac ni fyddwn yn casglu unrhyw ordaliad a achoswyd gan ein camgymeriad.

**Enghraifft 3**
Ar 12 Awst, rydych yn rhoi gwybod i ni am newid yn eich incwm. Rydym yn anfon hysbysiad o ddyfarniad newydd atoch, yr ydych yn ei gael ar 19 Awst, ond nid ydym wedi cofnodi'r wybodaeth a roesoch i ni'n gywir. Os sylwch ar hyn, ac nad ydych yn rhoi gwybod i ni am y camgymeriad tan 27 Medi (39 diwrnod o 19 Awst), gallech fod yn gyfrifol am y gordaliad hyd at y dyddiad y gwnaethoch gysylltu â ni.

Os na fyddwn yn cywiro camgymeriad ar y pryd rydych yn rhoi gwybod i ni amdano, ni fyddwn yn casglu unrhyw ordaliad sy'n cronni o'r dyddiad y gwnaethoch roi gwybod am y dyddiad yr ydym yn ei gywiro.

## Os methwch â bodloni'ch cyfrifoldebau

Os methwch â bodloni'ch cyfrifoldebau, ond rydym yn bodloni ein holl gyfrifoldebau ni, byddwn fel arfer yn gofyn i chi ad-dalu'r gordaliad cyfan. Er enghraifft, os rhowch wybod i ni am gamgymeriad ar eich hysbysiad o ddyfarniad mwy na 30 diwrnod ar ôl y dyddiad ar eich hysbysiad o ddyfarniad, efallai y bydd yn rhaid i chi ad-dalu gordaliad sydd wedi cronni hyd nes yr adeg y gwnaethoch gysylltu â ni. Gweler hefyd 'Amgylchiadau eithriadol' isod.

## Os bydd y ddau ohonom yn methu â bodloni ein cyfrifoldebau

Os bydd y ddau ohonom yn methu â bodloni ein cyfrifoldebau, byddwn yn ystyried yr hyn a digwyddodd, ac efallai y byddwn yn dileu rhan o ordaliad.

## Os bydd y ddau ohonom yn bodloni ein cyfrifoldebau

Os bydd y ddau ohonom yn bodloni ein cyfrifoldebau, byddwn fel arfer yn gofyn i chi ad-dalu'r gordaliad.

**Enghraifft 4**
Ar 12 Awst, rhoesoch wybod i ni fod eich incwm wedi cynyddu o 15 Gorffennaf ymlaen. Gwnaethom ddiweddaru'ch cofnod credydau treth ar 11 Medi. Byddwn yn dal i ofyn i chi ad-dalu unrhyw ordaliadau a wnaed yn ystod y cyfnod o 15 Gorffennaf i 11 Medi.

## Os bydd yn cymryd cryn amser i chi roi gwybod i ni nad ydym wedi bodloni ein cyfrifoldebau

Rydym yn gofyn i chi roi gwybod i ni am unrhyw gamgymeriadau a wnaed gennym cyn pen 30 diwrnod i'r dyddiad ar eich hysbysiad o ddyfarniad. Os na rowch wybod i ni cyn pen 30 diwrnod, byddwn yn gofyn i chi ad-dalu gordaliad hyd at y dyddiad y rhoesoch wybod am y camgymeriad.

## Amgylchiadau eithriadol

Rydym yn deall y gallai amgylchiadau eithriadol eich atal rhag bodloni'ch cyfrifoldebau mewn pryd. Er enghraifft, gallech chi neu aelod agos o'r teulu fod wedi bod yn ddifrifol wael ac felly nid oeddech yn gallu rhoi gwybod i ni am y newid, gwirio'ch hysbysiad o ddyfarniad na rhoi gwybod i ni am ein camgymeriad cyn pen 30 diwrnod i'r dyddiad ar eich hysbysiad o ddyfarniad.

Dylech roi gwybod i ni cyn gynted â phosibl os credwch fod hyn yn berthnasol i chi, neu os nad ydych yn si r a ydym wedi gwneud camgymeriad.

Os nad ydych yn deall pam mae gordaliad, cysylltwch â ni. Gallwn roi esboniad i chi dros y ffôn neu ar bapur. Mae ein taflen WTC8, 'Pam y mae gordaliadau'n digwydd' yn rhoi rhagor o wybodaeth am bethau a all achosi gordaliadau. Gallwch gael copi:

- ar-lein, ewch i gov.uk/cymraeg a chwilio am WTC8
- drwy ffonio Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF (gweler tudalen 17) os na allwch gyrchu'r rhyngrwydt

Os na allwch reoli'ch materion treth eich hun, trin arian, neu ddeall neu lenwi ffurflenni, gallwch gael person arall i weithredu ar eich rhan. Rydym yn galw'r bobl hyn yn benodedigion.

### Penodedigion

Weithiau gellir penodi penodedigion:

- gan lys neu un o adrannau'r llywodraeth, er enghraifft yr adran Gwaith a Phensiynau
- gennych chi, os oes angen help arnoch i ymdrin â'ch materion treth
- gan ofalwr, sefydliad y sector gwirfoddol neu weithiwr proffesiynol iechyd meddwl neu ofal cymdeithasol a fyddai'n gallu delio â phopeth â ni

Am ragor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/getting-help-with-your-tax-credits-claim/appointees

## Herio adennill gordaliad

### Sut i ddadlau yn erbyn gordaliad

Os na chytunwch y dylem ofyn i chi ad-dalu gordaliad, gallwch ofyn i ni ailystyried hyn. Dadlau yn erbyn gordaliad yw'r enw a roddwn ar hyn. I wneud hyn, llenwch a dychwelwch ffurflen TC846, 'Gordaliad Credydau Treth'. Gallwch gael copi:

- ar-lein, ewch i gov.uk/cymraeg a chwilio am TC846
- drwy ffonio Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF (gweler tudalen 17) os na allwch gyrchu'r rhyngrwyd

Gallwch ysgrifennu atom yn lle hynny, ond rhaid i chi sicrhau eich bod yn rhoi'r manylion llawn i ni, gan gynnwys:

- ym mha flwyddyn dreth y digwyddodd y gordaliad sy'n destun yr anghydfod
- p'un a wnaethoch gysylltu â ni, a phryd y gwnaethoch hynny
- pam rydych yn credu bod y gordaliad wedi digwydd
- pam rydych yn credu na ddylech orfod ad-dalu'r gordaliad

Fel arfer mae'n rhaid i chi ddadlau yn erbyn adennill gordaliad cyn pen 3 mis i ddyddiad:

- eich hysbysiad o benderfyniad terfynol
- y penderfyniad ar eich hysbysiad o Adolygiad Blynyddol (os adnewyddir eich dyfarniad yn awtomatig)
- eich Datganiad o Gyfrif
- y penderfyniad ar eich hysbysiad o Adolygiad o Ddyfarniad (os daeth eich dyfarniad i ben yn awtomatig o ganlyniad i hawliad am Gredyd Cynhwysol)
- y llythyr sy'n rhoi gwybod i chi beth yw ein penderfyniad ynghylch eich ailystyriaeth orfodol
- y llythyr oddi wrth y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd neu Apeliadau sy'n rhoi eu penderfyniad i chi ynghylch eich apêl

Gallwch ond dadlau yn erbyn adennill gordaliad a gododd yn ystod y flwyddyn dreth y mae'r hysbysiad neu'r llythyr yn ymwneud â hi. Ni fyddwch fel arfer yn gallu dadlau yn erbyn gordaliadau o flynyddoedd treth cynharach. Byddwn ond yn derbyn anghydfod hwyr o dan amgylchiadau eithriadol, er enghraifft, os oeddech yn yr ysbyty am y cyfnod 3 mis hwnnw. Os byddwch yn penderfynu anghytuno â gordaliad, byddwn yn parhau i geisio adennill y gordaliad wrth i ni ystyried eich anghydfod.

Os byddwn yn newid ein penderfyniad yn nes ymlaen, a'ch bod yn cael hysbysiad o benderfyniad arall ar gyfer yr un flwyddyn, bydd gennych 3 mis o ddyddiad yr hysbysiad hwnnw i ddadlau yn erbyn adennill gordaliad.

### Enghraifft 5

Mae gan Mair ac Alun ordaliadau o flynyddoedd treth 2013 i 2014 a 2014 i 2015. Maent yn ad-dalu'r gordaliadau o'u dyfarniad credydau treth yn 2017 i 2018. Roeddent yn hwyr yn rhoi gwybod am newid mewn amgylchiadau yn ystod 2017 i 2018, a dangosir gordaliad newydd ar eu hysbysiad o ddyfarniad terfynol ar gyfer 2017 i 2018. Mae eu hysbysiad o ddyfarniad terfynol hefyd yn dangos y gordaliadau o'r blynyddoedd treth cynharach.

Mae gan Mair ac Alun 3 mis yn unig o ddyddiad eu hysbysiad o benderfyniad ar gyfer 2017 i 2018 i ddadlau yn erbyn y gordaliad newydd. Ni fyddant, fodd bynnag, yn gallu dadlau yn erbyn y gordaliadau o'r blynyddoedd treth 2013 i 2014 a 2014 i 2015.

## Dyled hanesyddol

Os nad ydych yn cael credydau treth mwyach, byddwch wedi cael gwybod ar hysbysiadau blaenorol, os ydych am ddadlau yn erbyn gordaliad, y dylech wneud hynny cyn gynted â phosibl. Ni allwch ddadlau yn erbyn gordaliadau o ddyfarniadau blaenorol pan fo mwy na 3 mis wedi mynd heibio ers i chi gael eich hysbysiad o benderfyniad terfynol. Ond os na wnaethoch anghytuno â'r gordaliad mewn pryd oherwydd amgylchiadau eithriadol, fel bod yn yr ysbyty, byddwn yn ystyried yr anghydfod.

Os nad ydych yn cael credydau treth mwyach, ond rydych wedi cael hysbysiad o benderfyniad terfynol gennym yn ystod y 3 mis diwethaf, byddwch dim ond yn gallu dadlau yn erbyn y gordaliad a gododd yn y flwyddyn dreth y mae'r hysbysiad yn ymwneud â hi.

Os oeddech yn gallu hawlio credydau treth, a chawsoch daliadau, byddwn yn rhoi gwybod i chi a ydym yn adennill dyledion hanesyddol o'ch dyfarniad sy'n dal i gael ei dalu. Byddwch dim ond yn gallu dadlau yn erbyn y gordaliad yn ystod y 3 mis ar ôl i chi gael yr hysbysiad o benderfyniad terfynol sy'n ymwneud â'ch dyfarniad blaenorol. Darllenwch dudalen 13, 'Ad-dalu gordaliad'.

### Enghraifft 6

Rydych yn cael eich pecyn adnewyddu credydau treth ar 21 Mai 2018 sy'n gofyn i chi gadarnhau'ch amgylchiadau teuluol a'ch incwm ar gyfer y 12 mis blaenorol a ddaeth i ben ar 5 Ebrill 2018. Rydych yn gwirio manylion eich aelwyd ac yn penderfynu nad oes gennych newidiadau i roi gwybod amdanynt. Rydym yn anfon hysbysiad o benderfyniad terfynol ar 15 Awst 2018. Mae hyn yn dangos y gordalwyd credydau treth i chi

oherwydd gadawodd eich plentyn hynaf yr ysgol ym mis Medi 2017 er mai dim ond ym mis Ionawr 2018 y newidiwyd eich dyfarniad.

Nid ydych yn sylwi ar yr wybodaeth ynghylch y gordaliad tan fis Rhagfyr 2018 pan rydych yn sylweddoli bod eich taliadau credydau treth misol yn cael eu gostwng er mwyn ei ad-dalu. Rydych yn cytuno bod gordaliad wedi codi ond rydych yn credu nad oes raid i chi ei ad-dalu gan eich bod wedi rhoi gwybod i CThEF am eich merch yn gadael yr ysgol ym mis Medi 2017, ac ni wnaethom ddiwygio'ch dyfarniad tan fis Ionawr 2018. Roedd gennych 3 mis i ddadlau yn erbyn y gordaliad o 15 Awst 2018, pan wnaethom anfon yr hysbysiad o benderfyniad terfynol atoch. Golyga hyn y bu'n rhaid i chi ddadlau yn erbyn y gordaliad erbyn 15 Tachwedd 2018.

Gan fod yr amser bellach ar ben, ni allwch ddadlau yn erbyn y gordaliad oni bai y gallwch ddangos bod amgylchiadau eithriadol dros golli'r dyddiad cau, megis bod yn yr ysbyty.

## Os byddwn yn cael penderfyniad yn anghywir

Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y gwnawn ddiwygio'r penderfyniad a achosodd y gordaliad. Gallwn ond gwneud hyn os yw'r penderfyniad yn anghywir o ganlyniad i wall gennym ni, ac rydym yn canfod na wnaethoch gyfrannu'n sylweddol tuag at y gwall. 'Gwall swyddogol' yw'r enw a roddwn ar y math hwn o wall. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn diwygio penderfyniad sy'n anghywir o ganlyniad i wall swyddogol os oes mwy na 5 mlynedd wedi mynd heibio ers dyddiad y penderfyniad, neu pe na fyddai'r penderfyniad diwygiedig o'ch plaid.

Pan fo penderfyniad o'ch plaid, byddwn yn anfon hysbysiad o ddyfarniad diwygiedig atoch, a byddwn yn ad-dalu unrhyw swm a adenillwyd eisoes.

### Enghraifft 7

Rydych wedi bod yn cael Credyd Treth Gwaith ers 2012. Cawsoch hawl i Lwfans Byw i'r Anabl yn 2013, a gwnaethoch gysylltu â ni i ddiweddaru'ch cofnodion a hawlio elfen anabledd y Credyd Treth Gwaith.

Gwnaethom roi gwybodaeth anghywir i chi gan ddatgan nad oedd gennych hawl i'r elfen anabledd, a phenderfynom beidio â gwneud y newid y rhoesoch wybod amdano. Yn 2015 gwnaethoch ymweld â chanolfan Cyngor Ar Bopeth a holi ynghylch eich dyfarniad credydau treth. Sylweddolodd yr ymgynghorydd eich bod yn gymwys ar gyfer yr elfen anabledd ond nad oedd wedi'i chynnwys ar eich dyfarniad. Gwnaethoch gysylltu â ni a holi ynghylch ein penderfyniad gwreiddiol yn 2013. Gan fod ein penderfyniad yn anghywir, yn gyfan gwbl oherwydd ein gwall ni, byddai'ch dyfarniadau'n cael eu diwygio'r holl ffordd yn ôl i 2013.

## Sut rydym yn penderfynu a ddylech ad-dalu gordaliad cyfan, neu ran ohono

Wrth benderfynu a ddylech ad-dalu gordaliad, byddwn yn gwirio:

- ein bod wedi cofnodi gwybodaeth a roddwyd gennych yn fanwl gywir, a gweithredu arni, cyn pen 30 diwrnod ohonoch yn rhoi gwybod i ni am newid yn eich amgylchiadau
- ein bod wedi cyfrifo'n fanwl gywir eich hawl gywir, a'i thalu i chi
- bod yr wybodaeth y gwnaethom ei chynnwys ar eich hysbysiad o ddyfarniad yn gywir ar ddyddiad yr hysbysiad
- bod yr hyn y rhoesoch wybod i ni amdano, os gwnaethoch gysylltu â ni, yn gywir, a bod y cyngor a roesom i chi ar sail yr wybodaeth honno'n gywir
- a wnaethoch gysylltu â ni i drafod unrhyw ymholiadau ynghylch eich hysbysiad o ddyfarniad, ac a wnaethom eu hateb yn gywir

- eich bod wedi rhoi gwybodaeth gywir a chyfredol i ni pan wnaethoch hawlio credydau treth
- eich bod wedi rhoi gwybod i ni am unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau ar yr adeg gywir
- eich bod wedi rhoi gwybod i ni am unrhyw gamgymeriadau ar eich hysbysiad o ddyfarniad cyn pen 30 diwrnod o'r dyddiad ar eich hysbysiad o ddyfarniad
- eich bod wedi gwirio bod y taliadau a gawsoch yn cyd-fynd â'r symiau ar eich hysbysiad o ddyfarniad ac, os nad oeddent, eich bod wedi rhoi gwybod i ni cyn pen 30 diwrnod i'r dyddiad ar eich hysbysiad o ddyfarniad
- a wnaethoch roi gwybod i ni am unrhyw amgylchiadau eithriadol a oedd yn golygu nad oeddech yn gallu rhoi gwybod i ni am newid mewn amgylchiadau neu am ein camgymeriad cyn pen 30 diwrnod

Ar ôl i ni wirio ein bod wedi bodloni ein cyfrifoldebau ni, a'ch bod wedi bodloni'ch rhai chi, byddwn yn penderfynu a oes raid i chi ad-dalu:
- gordaliad
- gordaliad cyfan, neu ran ohono'n unig

Fel arfer byddwn yn rhoi ein penderfyniad, ynghyd â'n rhesymau, ar bapur. Fodd bynnag, ni fyddwn yn stopio casglu gordaliad wrth i ni wneud hyn.

Efallai na fyddwn yn gofyn i chi ad-dalu gordaliad os gwnaethoch gysylltu â ni i roi gwybod bod eich amgylchiadau personol eithriadol yn golygu nad oeddech yn gallu gwirio'ch hysbysiad o ddyfarniad neu daliadau banc. Er enghraifft, mae'n bosibl bod aelod o'ch teulu wedi bod yn ddifrifol wael. Os felly, rhowch wybod i ni cyn gynted â phosibl.

## Os ydych yn dal i gredu na ddylech ad-dalu gordaliad

Os ydych yn dal i fod yn anfodlon ein bod wedi penderfynu parhau i gasglu gordaliad, gallwch ofyn i ni ystyried y penderfyniad eto os rhowch wybodaeth newydd a pherthnasol i ni. Unwaith yn unig y gallwch ofyn i ni adolygu'r penderfyniad, a bydd yn rhaid i chi wneud hynny cyn pen 30 diwrnod o gael eich llythyr o benderfyniad ynghylch anghydfod. Bydd eich gordaliad yn dal i gael ei gasglu wrth i ni wneud hyn. Byddwn ond yn derbyn cais hwyr am adolygiad o dan amgylchiadau eithriadol, er enghraifft, os oeddech yn yr ysbyty am y cyfnod hwnnw o 30 diwrnod.

Os nad oes gennych unrhyw wybodaeth newydd i'w rhoi i ni, ond rydych yn dal i fod yn anfodlon ar ein penderfyniad, gallwch gysylltu ag ymgynghorydd proffesiynol neu sefydliad, megis Cyngor Ar Bopeth. Gallwch ystyried pa opsiynau sydd gennych, gan gynnwys mynd drwy'r llysoedd.

Os ydych yn anfodlon ar ein gwasanaeth, darllenwch 'Gwasanaeth i gwsmeriaid' ar dudalen 17.

# Ad-dalu gordaliad

Gallwn gasglu gordaliad oddi wrthych mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys:

- gostwng eich taliadau o ddyfarniad credydau treth sy'n dal i gael ei dalu
- gofyn i chi wneud taliadau uniongyrchol i ni
- addasu'ch cod treth

Os ydych yn hawlio Credyd Cynhwysol, mae'n bosibl y byddwn yn gofyn i'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) neu'r Adran Cymunedau (DfC) (os ydych yn byw yng Ngogledd Iwerddon) adennill eich gordaliad credydau treth.

O dan amgylchiadau eithriadol, gallwn adennill y gordaliad yn uniongyrchol o'ch cyfrif banc.

Mewn rhai achosion eithriadol, efallai y gofynnwn i chi wneud mwy nag un o'r uchod.

## O ddyfarniad credydau treth sy'n dal i gael ei dalu

Os ydych yn dal i gael taliadau credydau treth, byddwn yn gostwng y taliadau hyn yn awtomatig er mwyn adennill gordaliad o'ch dyfarniad credydau treth presennol. Gall gordaliadau y byddwn yn eu hadennill ddod o'r canlynol:

- dyfarniadau yr ydych chi neu'ch partner wedi'u cael fel pobl sengl
- dyfarniadau yr ydych chi a'ch partner wedi'u cael ar y cyd, naill ai nawr neu'n flaenorol

Ni fyddwn yn adennill o'ch credydau treth presennol unrhyw ordaliadau o ddyfarniadau yr ydych chi neu'ch partner wedi'u cael gyda phartneriaid eraill.

Dim ond pan fydd gordaliad yn cael ei sefydlu ar ddiwedd y flwyddyn y mae adferiad o ddyfarniad credyd treth parhaus yn digwydd. Byddwn yn adennill y gordaliad o'r dyfarniad sy'n dechrau ar 6 Ebrill y flwyddyn ganlynol.

Bydd maint y gostyngiad yn eich taliadau'n dibynnu ar faint rydych yn ei gael. Rydym yn gostwng dyfarniadau ar gyfraddau gwahanol.

Mae'r tabl ar dudalen 14 yn dangos y gwahanol gyfraddau adennill.

Cysylltwch â ni os ydych am gael help i ddeall pa gyfradd adennill sy'n berthnasol i chi.

| Math o ddyfarniad | Y swm uchaf y byddwn yn ei adennill o'ch dyfarniad |
|---|---|
| Os oes gennych hawl i gael uchafswm y credydau treth heb ostyngiad o ganlyniad i incwm | 10% |
| Os ydych yn cael Credyd Treth Plant neu Credyd Treth Gwaith islaw'r uchafswm ac mae cyfanswm incwm eich aelwyd yn £20,000 neu'n llai | 25% |
| Os yw cyfanswm incwm eich aelwyd yn fwy nag £20,000 | 50% |
| Os mai dim ond elfen deuluol y Credyd Treth Plant rydych yn ei chael | 100% |

## Drwy daliad uniongyrchol

Byddwn yn gofyn i chi wneud taliad uniongyrchol i ni:

- os nad oes gennych hawl i gredydau treth mwyach
- os daw eich dyfarniad credydau treth i ben - gall hyn ddigwydd os oes newid ar eich aelwyd, er enghraifft, roeddech yn rhan o bâr ond rydych bellach yn sengl

## O ddyfarniad credydau treth sy'n dal i gael ei dalu a thrwy daliad uniongyrchol

Gallai hyn ddigwydd os oes gennych ordaliad o hen ddyfarniad a ddaeth i ben, ac os oes gennych ordaliad o ddyfarniad presennol hefyd. Er enghraifft, rydych chi a'ch partner yn gwahanu a gwnaethoch gais arall fel person sengl neu fel rhan o gwpl newydd. Gallem ofyn i chi ad-dalu gordaliad o'ch dyfarniad presennol yn ogystal â thaliad uniongyrchol o'ch dyfarniad blaenorol. Os bydd hyn yn digwydd i chi, gallwch ofyn i ni atal y taliad uniongyrchol tan i chi ad-dalu'r gordaliad o'ch taliadau credydau treth sy'n dal i gael eu talu.

Os oes gennych ordaliad sydd heb ei ad-dalu o hen hawliad, o dan rai amgylchiadau gallwn adennill y swm hwn o'ch dyfarniad sy'n dal i gael ei dalu, yn hytrach na gofyn i chi ad-dalu'r gordaliad hwn yn uniongyrchol.

## Gofyn am fwy o amser i ad-dalu taliad uniongyrchol

Os ydym wedi gofyn i chi ad-dalu gordaliad o ddyfarniad blaenorol yn uniongyrchol, ond mae angen rhagor o amser arnoch, ffoniwch y Llinell Gymorth Gymraeg ar gyfer Taliadau ar 0300 200 3860 cyn gynted â phosibl. Mae'n bosibl y gallwn drefnu eich bod yn ei ad-dalu fesul rhandaliad cyfartal. Os hoffech gael rhagor o fanylion ynghylch gwahanol ddulliau o dalu'n uniongyrchol, rhowch wybod i ni pan fyddwch yn ffonio.

## Drwy addasiad i'ch cod treth

Os ydych yn gyflogedig o dan y drefn TWE neu'n cael incwm o bensiwn, ac mae gennych ordaliad credydau treth, mae'n bosibl y gallwn addasu'ch cod treth er mwyn casglu'ch gordaliad. Byddwn yn ysgrifennu atoch ac yn rhoi gwybod i chi a allwn gasglu'ch gordaliad drwy'r dull hwn. Os ydym yn ysgrifennu atoch, a byddai'n well gennych beidio â chael eich cod treth wedi'i addasu, gallwch gysylltu â ni er mwyn talu'n llawn neu gytuno ar drefniant talu fesul rhandaliad. Bydd y swm sy'n cael ei adennill yn dibynnu ar eich incwm.

## Os ydych yn hawlio Credyd Cynhwysol

Os ydych yn hawlio Credyd Cynhwysol, efallai y byddwn yn trosglwyddo'ch dyledion credydau treth i'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) neu'r Adran Cymunedau (DfC), er mwyn iddynt allu ei adennill o'ch taliadau Credyd Cynhwysol, oni bai eu bod yn rhoi gwybod yn wahanol i chi. Os ydym eisoes wedi cytuno ar gynllun talu gyda chi, bydd hwn yn dod i ben ac efallai y bydd y dull o adennill a/neu'r gyfradd adennill a ddefnyddir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau neu'r Adran Cymunedau yn wahanol i gynllun CThEF. I gael ragor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/tax-credits-overpayments

## Os nad ydych yn hawlio credydau treth mwyach ac mae gennych ddyled heb ei thalu

Os nad ydych yn hawlio credydau treth mwyach, ac mae gennych ordaliad neu gosb sydd heb ei setlo, efallai y byddwn yn trosglwyddo'r rhain i'r Adran Gwaith a Phensiynau neu'r Adran Cymunedau i'w hadennill.

## Caledi ariannol

Os oes angen i chi drafod caledi ariannol â ni, rhowch alwad i ni er mwyn esbonio'r sefyllfa.

Pan fyddwch yn ffonio, efallai y gofynnwn i chi am amgylchiadau teuluol a allai arwain at gostau byw ychwanegol. Er enghraifft, os ydych yn gofalu am rywun sydd â salwch cronig neu anabledd. O dan rai amgylchiadau eithriadol, efallai y byddwn yn canslo gordaliad yn gyfan gwbl.

## Os na allwch dalu am eich treuliau byw hanfodol

Ffoniwch y Llinell Gymorth Gymraeg ar gyfer Taliadau ar 0300 200 3860 os na allwch dalu am eich treuliau byw hanfodol megis eich rhent, nwy neu drydan, ac:

- rydych yn ad-dalu gordaliad yn uniongyrchol
- rydym wedi gofyn i chi ad-dalu gordaliad

Byddwn yn gofyn i chi am ragor o wybodaeth am eich amgylchiadau, gan gynnwys eich incwm a'ch costau byw, i weld a allwn addasu'ch taliadau. Unwaith y bydd gennym yr wybodaeth hon, byddwn yn anelu at wneud penderfyniad cyn pen 2 ddiwrnod gwaith.

Os ydym wedi gostwng eich taliadau parhaus er mwyn i chi allu ad-dalu gordaliad, gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth yn www.gov.uk/tax-credits-overpayments

P'un a ydych yn ad-dalu'ch gordaliad drwy ostyngiad yn eich credydau treth neu drwy daliad uniongyrchol, mae'n bosibl y byddwn yn gofyn a ydych am ei dalu'n ôl dros gyfnod hirach o amser.

Os na allwch dalu am eich treuliau byw hanfodol, ac rydych yn cael Credyd Cynhwysol, dylech gysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau neu'r Adran Cymunedau.

## Os byddwch chi a'ch partner yn gwahanu

Rhaid i chi roi gwybod i ni cyn pen un mis os byddwch chi a'ch partner yn gwahanu. Bydd eich cais ar y cyd am gredydau treth yn dod i ben, a byddwn yn cyfrifo os ydych wedi cael eich gordalu. Os byddwch wedi'ch gordalu, byddwn yn ysgrifennu at y ddau ohonoch, fel arfer ar ddiwedd y flwyddyn dreth, er mwyn:

- rhoi gwybod faint rydym wedi ei ordalu i chi
- gofyn i chi gysylltu â ni er mwyn trefnu ad-dalu'r arian

Rydych chi a'ch cyn-bartner yn gyfrifol fel eich gilydd am ad-dalu unrhyw ordaliad o'ch hawliad ar y cyd. Bydd y llythyr a anfonir at y ddau ohonoch yn dangos cyfanswm y gordaliad sydd ar y ddau ohonoch.

Dylech geisio cytuno gyda'ch cyn-bartner faint y dylai'r ddau ohonoch ei dalu. Yr opsiynau sydd gennych yw:

- bod y ddau ohonoch yn talu hanner
- bod y ddau ohonoch yn talu swm gwahanol
- bod un ohonoch yn talu'r swm llawn

Unwaith y byddwch wedi dod i gytundeb â'ch cyn-bartner, dylai'r ddau ohonoch ffonio'r Llinell Gymorth Gymraeg ar gyfer Taliadau ar 0300 200 3860 er mwyn trefnu ad-dalu'r gordaliad. Yna, cewch lythyr yn cadarnhau'r hyn y mae'n rhaid i chi ei ad-dalu.

Efallai na fyddwch yn gallu trafod y peth â'ch cyn-bartner, naill ai oherwydd nad ydych am gysylltu ag ef neu am na wyddoch ble y mae. Hyd yn oed os byddwch yn siarad ag ef, efallai na fyddwch yn gallu cytuno ar yr hyn y dylai'r ddau ohonoch ei ad-dalu. Os bydd hyn yn digwydd, dylech siarad â'r Llinell Gymorth Gymraeg ar gyfer Taliadau cyn gynted â phosibl. Gofynnir i chi wedyn ad-dalu hanner y gordaliad, a gofynnir i'ch partner ad-dalu'r gweddill. Ni ofynnir i chi ad-dalu mwy na hanner y gordaliad.

# Cysylltu â ni

Pan fyddwch yn cysylltu â ni, dylech roi'r canlynol i ni:

- eich enw llawn
- eich rhif Yswiriant Gwladol
- rhif ffôn yn ystod y dydd

**Dros y ffôn**

| | |
|---|---|
| Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF | 0300 200 1900 |
| Llinell Gymorth Gymraeg ar gyfer Taliadau | 0300 200 3860 |
| Relay UK<br>(os na allwch glywed na siarad<br>dros y ffôn) | 18001 0345 300 3900 |
| hoffech siarad â ni yn Gymraeg, ffoniwch | 0300 200 1900 |
| Os ydych dramor, ac na allwch<br>gael ateb ar y llinell gymorth | +44 2890 538 192 |

**Ar bapur**

Swyddfa Credydau Treth
Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF
HMRC
BX9 1ST

# Help a chymorth

I ddeall sut i reoli'ch credydau treth er mwyn cael yr arian y mae gennych hawl iddo, gwyliwch ein fideo YouTube byr.

Ewch i www.gov.uk/tax-credits-webinars-videos

## Cael help gan CThEF os oes angen cymorth ychwanegol arnoch

I gael gwybodaeth am gael cymorth ychwanegol os yw eich cyflwr iechyd neu amgylchiadau personol yn ei gwneud hi'n anodd pan fyddwch yn cysylltu â CThEF, ewch i www.gov.uk/get-help-hmrc-extra-support

## Cyngor ynghylch dyledion

Os ydych chi'n cael trafferth talu'ch biliau, gallwch gael cyngor ar ddyledion yn rhad ac am ddim yn www.gov.uk/debt-advice

# Gwasanaeth i gwsmeriaid

For information about our complaints procedure, go to www.gov.uk/complain-about-hmrc

## Eich hawliau a'ch ymrwymiadau

Mae 'Siarter CThEF' yn egluro'r hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym ni, a'r hyn a ddisgwyliwn gennych chi. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/government/publications/hmrc-charter

Arweiniad yn unig yw'r nodiadau hyn sy'n adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg eu hysgrifennu. Nid ydynt yn effeithio ar unrhyw hawl i apelio.

Gr p Gwasanaeth i Gwsmeriaid CThEF

Ebrill 2024 © Hawlfraint y Goron 2024

CThEF 04/24